


PECYN CYFATHREBU

DEWCH I GREU'R DYFODOL GYDA'N GILYDD



CYSYLLTIADAU



SWYDDOG CYFATHREBU

Julie Richards
07904 866 458
julie.richards@futuregenerations.wales
@sapphofem



ARWEINYDD CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Jacob Ellis
07908 067 437
jacob.ellis@futuregenerations.wales
@jacobdellis




@futuregencymru



/futuregencymru

gellir cael mwy o wybodaeth am
ein gwaith ar y wefan:

WWW.CENEDLAETHAURDYFODOL.CYMRU



DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Pwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, chwilio am ffyrdd o atal problemau a chymryd agwedd fwy cysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru y bydd pawb ohonom eisiau byw ynddi, heddiw ac yn y dyfodol Er mwyn sicrhau ein bod ni oll yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yngosod saith amcan llesiant yn eu lle. Mae datblygu cynaliadwy'n ymwneud â gwella'r ffordd y gallwn ni gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.



Y 7 NOD LLESIANT

Cymru Lewyrchus



Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru Gydnerth



Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru â Diwylliant
Bywiog lle mae'r
Gymraeg yn Ffynnu



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth bethfo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru Iachach



Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibla lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy
cyfartal



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o Gymunedau
Cydlynus



Cymunedau atyniadol, hyfiw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru sy'n Gyfrifol ar
lefel byd-eang



Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesianteconomaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiantbyd-eang.

Y 5 DULL O WEITHIO

Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyfrannu at y saith nod llesiant, gosodwyd pum dull o weithio sy'n darparu



Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



Ymggyfrannu

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

SOPHIE HOWE



Rôl y Comisiynydd yw bod yn warcheidwad cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu helpu cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud polisi yng Nghymru i feddwl am yr effaith hirdymor sydd gan eu penderfyniadau. Dechreuodd Sophie Howe ei swydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru yn gynnar yn 2016. Cyn hyn, hi oedd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau cyntaf yn Ne Cymru lle bu'n arwain rhaglenni i fynd i'r afael â throseddau treisgar a thrais yn erbyn menywod a merched, gan ganolbwyntio ar ddechrau ymyrraeth a gweithio mewn partneriaeth. Diwygiodd Sophie raglenni ar reoli camddefnyddio sylweddau a rheoli troseddwr a thrafododd y rhaglen waith a rennir gyntaf rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru. Mae Sophie hefyd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd Arbennig y Llywodraeth sy'n darparu cyngor polisi a gwleidyddol ar gymunedau, llywodraeth leol, diogelwch cymunedol, tai, adfywio a chydaddoldeb.

Dewch i greu'r dyfodol gyda'n gilydd

Adnoddau




CEFNDIR:

Cynhyrchu Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yw un o ddyletswyddau'r Comisiynydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid iddi hi gynghori ar y gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni amcanion llesiant, sef yr addewidion y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud er mwyn gwella economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant eu hardal yn y dull mwyaf effeithlon o dan y ddeddf honno. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd sydd wedi digwydd hyd yn hyn a beth ddylai ddigwydd yn y dyfodol. Gellir gweld rhestr lawn o ofynion ar gyfer yr Adroddiad yn Adran 23 y ddeddfwriaeth.

Cyhoeddir Adroddiad y Comisiynydd ym mis Mai 2020. Mae'r Ddeddf yn gosod yr amseriad yn fwriadol cyn yr etholiadau cenedlaethol a lleol, er mwyn iddo allu hydreiddio'r ddadl gyhoeddus a maniffestos gwleidyddol, Rydym ni'n gweld hyn fel cyfle rhagorol i ddatblygu maniffesto ar y cyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, ac rydym ni eisiau cynnwys pobl a sefydliadau mor eang â phosib ledled Cymru.

Ers iddi gael ei phenodi yn 2016, mae'r Comisiynydd wedi siarad â llawer o bobl er mwyn casglu gwybodaeth i'w fwydo i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Ond mae llawer mwy i'w wneud. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfleoedd sydd ar y gweill i fwydo i mewn i'w Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac i roi siâp ar y sgwrs ynghylch yr hyn rydym ni eisiau i ddigwydd: Cymru Ein Dyfodol.



AR DDIWRNOD Y LANSIAD

AWGRYMIADAU AM LWYBRAU A DULLIAU I YMGYSYLLTU

Dyma rai syniadau yr hoffech chi eu defnyddio i hyrwyddo 'Cymru Ein Dyfodol' efallai. Wrth gwrs, dyw hon ddim yn rhestr lawn – byddwch yn ddychmygus os gwelwch yn dda, ac ystyriwch a oes cyfle i weithredu ar y cyd ag un neu fwy o sefydliadau partner ar yr un pryd, er mwyn gwneud yn fawr o'r gynulleidfa. Byddwn ni'n lansio'r sgwrs genedlaethol: 'Cymru Ein Dyfodol' ar 6 Mehefin 2019, a bydd yn dod i ben ar 1 Tachwedd. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl adnoddau a graffics perthnasol yr hoffem i chi eu defnyddio ar y diwrnod lansio. Byddwn ni'n trydar fideo hyrwyddo ar ddiwrnod y lansiad, a byddem ni'n ddiolchgar iawn pe gallech chi ei rannu / aildrydar ar y diwrnod hwnnw.

CYFATHREBU CYMDEITHASOL

A fydddech cystal ag annog staff, ffrindiau neu aelodau i rannu lluniau a fideos ohonyn nhw'u hunain yn rhannu sut yr hofffen nhw i #CymruEinDyfodol edrych. Mae adrodd straeon hefyd yn ffordd ardderchog o ymgysylltu â phobl eraill, felly gallech ofyn i bobl ddisgrifio'r hyn y maen nhw'n ei hoffi am y cymunedau ble maen nhw'n byw, a sut yr hofffen nhw i bethau ddatblygu

Hashnod Cyfryngau

#CymruEinDyfodol

Cymdeithasol

#OurFutureWales

Enghraifft o

Drydariadau

- Heddiw mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn lansio sgwrs genedlaethol newydd ar gyfer ei fwydo i'w Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Ymunwch â'r sgwrs a rhannwch eich barn ar beth hoffech chi ei gael i #CymruEinDyfodol (dolen)
- Welsoch chi sgwrs genedlaethol newydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 'Cymru Ein Dyfodol'? Rhannwch eich straeon ac ymunwch â'r sgwrs.
- Sgwrs genedlaethol yw Cymru Ein Dyfodol fydd yn bwydo i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r adroddiad yn amlinellu cynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r camau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu cymryd i'r dyfodol. Rhowch wybod os hoffech gael eich cynnwys.

AR DDIWRNOD Y LANSIAD

AWGRYMIADAU AM LWYBRAU A DULLIAU I YMGYSYLLTU

CYLCHLYTHYRON

Rhannwch ein Pecyn Cymorth Cymru Ein Dyfodol drwy gyfrwng eich cylchlythyron ble bo hynny'n addas os gwelwch yn dda. Cynlluniwyd y Pecyn Offer er mwyn i sefydliadau allu cynnal digwyddiad gyda'u haelodau neu gyflwyno'u syniadau i ni.

RADIO A'R WASG

Gallech ymgorffori negeseuon mewn cyfweiliadau ar radio lleol a chenedlaethol, mewn datganiadau i'r wasg neu mewn unrhyw hysbysebu y telir amdano. Dyma ffordd wych o gyfathrebu eich bod chi'n cefnogi'r sgwrs genedlaethol.

DEUNYDD GWELEDOL

Mae rhyddid llwyr i chi ddefnyddio'r graffics a'r fideos parod i gefnogi eich cyfathrebiadau ac mae'r cwbl i'w lawrlwytho ar dudalen 14.



YN YSTOD Y SGWRS

AWGRYMIADAU AM LWYBRAU A DULLIAU I YMGYSYLLTU

Mae sawl cyfle ar gael ble hoffem i chi ein cefnogi yn ystod y sgwrs (rhwng 6 Mehefin a 1 Tachwedd). Nid yw'r rhestr hon yn un lawn, a hoffem eich annog i fod mor ddychmygus ac arloesol â phosib.

LLWYFAN Y BOBL

Byddem ni'n ddiolchgar iawn pe gallech chi annog eraill i lenwi ein porth casglu straeon ar lein – 'Llwyfan y Bobl'. Gellir dod o hyd i'r holl gwestiynau sy'n berthnasol i sgwrs Cymru Ein Dyfodol yma. Po fwyaf o bobl sy'n llenwi hwn, y gorau fydd hi, am y bydd yn rhoi golwg fwy eang ar ddisgwyliadau a barn pobl wedyn.



Enghraifft o Drydariadau

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi lansio sgwrs genedlaethol newydd i fwydo i'w Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Gallwch rhannu eich barn ar yr hyn hoffech chi ei weld a'ch straeon ar Lwyfan y Bobl. #CymruEinDyfodol

CYNNAL EICH DIGWYDDIAD EICH HUN

Mae Pecyn Cymorth Cymru Ein Dyfodol yn cynnwys yr adnoddau perthnasol er mwyn i chi gynnal eich digwyddiad eich hun i gefnogi a bwydo i mewn i'r sgwrs genedlaethol Mae'r pecyn offer yn cynnwys cyflwyniad PowerPoint, Cwis 'Wyddech chi?', taflenni briffio, fideo BSL, graffics a chwestiynau cychwynnol.

Mae gennym yn ogystal faner pop-yp Cymru Ein Dyfodol, bwrdd gwyn i hyrwyddo a mat amcanion llesiant i'w ddefnyddio yn eich digwyddiadau. Rhowch wybod i ni beth rydych chi'n ei gynllunio er mwyn i ni eich cefnogi.

YN YSTOD Y SGWRS

AWGRYMIADAU AM LWYBRAU A DULLIAU I YMGYSYLLTU

CYFRYNGAU CYFATHREBU

Anogwch staff, ffrindiau neu aelodau i rannu lluniau a fideos ohonyn nhw'u hunain yn rhannu sut hoffen nhw i #CymruEinDyfodol edrych. Mae adrodd straeon yn ffordd wych o ymgysylltu â phobl eraill, felly gallech ofyn i bobl ddisgrifio beth maen nhw'n ei hoffi am y cymunedau ble maen nhw'n byw a sut yr hoffen nhw weld pethau'n datblygu.

Hashnod Cyfryngau

#CymruEinDyfodol

Cymdeithasol

#OurFutureWales

Enghraifft o

Drydariadau


Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi lansio sgwrs genedlaethol newydd i fwydo i'w Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Ymunwch â'r sgwrs a rhannwch eich barn ar yr hyn hoffech chi ei weld ar gyfer #CymruEinDyfodol (dolen)

YMCHWIL / ADRODDIADAU / AROLYGON

Er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym ni'n annog sefydliadau i rannu ymchwil, adroddiadau ac arolygon y maen nhw wedi'u cwblhau o bosib. Y rheswm am hyn yw er mwyn osgoi dyblygu, ac i annog rhannu a chydweithio. Os oes gennych chi unrhyw ddeunydd y tybiwch fydd o ddefnydd, rhannwch gyda ni os gwelwch yn dda.

DIGWYDDIADAU CYMRU EIN DYFODOL


Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ymweld â rhannau gwahanol o Gymru dros y misoedd nesaf, a byddai'n gwerthfawrogi cael cefnogaeth wrth hyrwyddo'r digwyddiadau hyn. Gallwch ddod o hyd i ddolen ar gyfer y digwyddiadau hyn yma.



YN YSTOD Y SGWRS


BRANDIO

- Gwnewch negeseuon yn gadarnhaol gymaint â phosib. Mae ein diddordeb ni yn yr atebion a'r syniadau arloesol.
- Defnyddiwch y logo isod os gwelwch yn dda



ADNODDAU I'W LAWRLWYTHO

Cysylltwch â Julie os oes gennych unrhyw ofynion ychwanegol os gwelwch yn dda



TÎM CYFATHREBU

Mae'r Tîm yn barod bob amser i ateb eich ymholiadau



ARWEINYDD CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Jacob Ellis

jacob.ellis@futuregenerations.wales

[@jacobdellis](#)



SWYDDOG DIGIDOL

Julie Richards

julie.richards@futuregenerations.wales

[@sapphofem](#)



ARLOESWR DIGIDOL

Abby Dickinson

abby.dickinson@futuregenerations.wales

[@A_Dickinson_](#)



SWYDDOG CYFATHREBU A POLISI

Rebecca Brown

rebecca.brown@futuregenerations.wales